CYNGOR CYMUNED PENMYNYDD A STAR:
Cofnodion Cyfarfod
5ed Gorffennaf 2023 yn Y Ganolfan, Penmynydd

YN BRESENNOL: Cyng., Dewi Gwyn (Cadeirydd), Heulwen Owen, Janet Jones, Nia Jones, Owain Evans, D.Idriswyn Roberts, Llinos Roberts Cynghorwyr Sirol : Sonia Williams, Robin Williams. Clerc: Gillian Morris	
1.	**YMDDIHEURIADAU** Janet Jones, Selwyn Hughes, Dyfed Jones (Cynghorwr Sirol)
2.	**DATGAN DIDDORDEB** – Dim
3.	**DERBYN COFNODION** Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 07/06/2023. Fe'i derbyniwyd fel rhai cywir. NJ yn cynnig, HO yn eilio.
4.	**MATERION YN CODI O'R COFNODION**
4.1	Maes Chwarae, Star - Cylchlythyr wedi cael ei ddanfon i drigolion y pentref. Chwiliadau wedi eu cwblhau gyda Dŵr Cymru, Scottish Power a'r Grid Cenedlaethol er mwyn symud ymlaen. Termau wedi ei arwyddo ar gyfer PlayQuest ac offer wedi ei archebu. DG yn cynnig ein bod yn rhoi caniatâd i Wil a Carol Owen i roi plac ar un o'r meinciau er cof am Gareth eu mab. Pawb yn cytuno yn unfrydol. Cadw Cymru'n Daclus gyda phrosiect mawr ar y gweill, DG wedi ysgrifennu i CSYM i ofyn caniatâd i osod tŷ gwydr. Disgwyl ymateb.
4.2	Hyfforddiant Defib - Clerc i gadarnhau dyddiad.
4.3	Rheolau Sefydlog Newydd -Cynllun iaith, adroddiad mewnol ac adolygiad pwyllgor safonau.
4.4	Polisi'r wasg - wedi ei ddiweddaru a'i dderbyn.
4.5	Datganiad derbyn swydd Cadeirydd - wedi ei gwblhau a'i dderbyn.
4.6	Polisi taliadau'r clerc - wedi ei ddiweddaru a'i dderbyn.
4.7	Agenda Dwyieithog - Trafodwyd bod yr agenda i fod yn ddwyieithog o fis Medi 2023.
4.8	Goryrru - Casglu ffurflenni. Hefyd trafodwyd cysylltu gyda'r heddlu drwy Livechat neu e-bost er mwyn cofnodi cwynion. DG i greu taflen wybodaeth ar sut i ddefnyddio Livechat.
4.9	Digwyddiadau Cymunedol – wedi symud y drafodaeth i'r cyfarfod nesaf
5.0	**Materion ariannol**
5.1	Cafwyd diweddariad gan y clerc ar y sefyllfa ariannol. Arian yn y banc, taliad cyflog.
6.0	**GOHEBIAETH CYNGOR SIR YNYS MÔN**
	Dim
7.0	**Ceisiadau Cynllunio**
7.1	Windowtec, Ffordd Caergybi, Gaerwen.
7.2	Penrhyn Ffordd Penmynydd Road, Penmynydd
8.0	**Gohebiaeth Ychwanegol**

8.1	Adroddiad ROSPA - Clerc wedi derbyn yr adroddiad, angen sylw i'r ddwy siglen, DG wedi trefnu gyda PlayQuest i wneud y gwaith wrth osod yr offer newydd yn y cae chwarae.
8.2	Y Cyngor Cymuned yn cydymdeimlo gyda Janet Jones a'r teulu yn eu profedigaeth.
9.0	**Materion Eraill**
9.1	Cofrestr Rhoddion a Lletygarwch wedi ei osod ar wefan y Cyngor
9.2	Elusendai (diweddariad)- Cafwyd diweddariad gan DIR ynglŷn â'r prosiect, y camau nesaf fydd ymgynghori gyda'r cyhoedd. Fe fydd yna gyfarfod cyhoeddus yr ail wythnos o fis Medi, a fydd yn cynnwys holeb i'r gymuned, arddangosfa o'r cynlluniau a'r hanes tu ôl i'r adeiladau.
10.0	**EITEMAU AR GYFER YR AGENDA NESAF**
10.1	Pryderon Bryn Ffynnon
10.2	Llwybrau Cyhoeddus

Llofnod **Dyddiad**